
Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor
Gosber

# Yr Ing

## George Herbert | cyfieithiad Siôn Aled

Mesurodd gwyddonwyr fynyddoedd,
Plymio dyfnderau'r môr, cloriannu byd,
Triongli ffurfiau'r wlad a mapio tiroedd:
        Ond mae dau hanfod maith o hyd
Sy'n cuddio'u mesuriadau rhag y call:
Un ydyw Cariad, Pechod yw y llall.

        A fynno ddirnad Pechod, aed
I Fynydd yr Olewydd; at y Dyn
A blingwyd gan ddioddef, gyda'i waed
        Yn fantell front aeth gyda'i gorff yn un.
Pechod yw'r cynydd sydd yn gyrru poen
Fel helgi'n tyrchu'i 'sglyfaeth dan y croen.

        Yr hwn nad adwaen Gariad, doed
A dal un dafn o'r bicell ger y groes,
O ddwyfol darddiad; yna'n union rhoed
        Ei gyffes, wedi blasu brag y loes:
Cariad yw'r sug melysaf 'rioed ei rin,
Â'i sawr i'm Duw fel gwaed; i mi fel gwin.


Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor
Gosber

# Cyrchfan

R. S. Thomas | cyfieithiad Siôn Aled

Daliai Duw yn ei law
Belen fach. Edrych, meddai.
Edrychodd y mab. Ymhell bell,
Megis drwy ddŵr, gwelodd
Dir crin ffyrnig
Ei liw. Llosgai'r goleuni
Yno; taenai adeiladau cramennog
Eu cysgodion: a deffrodd
O'i chwsg cylchog
Sarff lachar, afon, yn loyw
O lysnafedd.
                    Ar gopa moel
Safai un goeden foel
Yn felan ar yr wybren. A phobl lawer
Yn estyn breichiau brau
Tuag ati, fel pe'n disgwyl
I ryw Ebrill dihangol
Ddychwelyd i'w changhennau
Cytgroes. Gwyliai'r mab
Y dyrfa. Gad i mi fynd yno, meddai.

Gosber

Oedfa Gymraeg ar Zoom
pob nos Sul am 6.30pm
Suliau cyn y Grawys 2021
gosber.mailchimpsites.com